"Ac fel y dyrchafodd Moses y sarff yn yr anialwch, felly y mae'n rhaid i Fab y Dyn gael ei ddyrchafu, er mwyn i bob un sy'n credu gael bywyd tragwyddol ynddo ef." (**Ioan 3:14-15)**

Yn yr adnod yma mae'r Arglwydd Iesu yn cyffelybu ei groeshoeliad i hanes sarff bres Moses.

Dyrchafiad Crist

Dyma ddyrchafiad gwahanol iawn i'r hyn y mae llawer yn meddwl amdano heddiw. Dyrchafiad i sawl un yw cyrraedd safon rheolwr neu gyfarwyddwr yn eu gyrfa. Mae'r clybiau pêl-droed yn anelu at y gynghrair nesaf i fyny neu at fod yn bencampwyr Ewrop.
Mae'r Arglwydd yn sôn am ddyrchafiad i ben polyn hir fel ddigwyddodd i ryw neidr bres ganrifoedd yn gynt yn hanes Israel yn yr anialwch. Mae'r hanes yn Numeri 21.4-9, wrth i'r Israeliaid agosáu at wlad Canaan. Mae'r hanes, yn ôl Crist, yn ddarlun o bwrpas ei ddyfodiad a'i farwolaeth ar y groes.

Cwyn y bobl

Nid am y tro cyntaf mae'r bobl yn cwyno yn erbyn Duw a Moses. Maent yn pechu eto trwy ddangos anniolchgarwch i Dduw, diffyg ffydd a gwrthryfel. Doedd y manna ddim yn ddigon da, a doedd dim pwrpas i'w crwydro. Roedden nhw wedi anghofio am ofal Duw a'i ddarpariaeth wyrthiol droeon. Mae hwn yn ddarlun bach o bechod dyn yn gyffredinol yn erbyn ei Greawdwr.

Cosb Duw

Mae'r Beibl yn dysgu'n glir fod canlyniadau i bechod. **"Cyflog pechod yw marwolaeth"**, a daeth hynny'r tro hwn trwy seirff gwenwynig. Mae'n ddarlun da o frathiadau pechod i ni hefyd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Brathiadau ein drygioni ein hunain neu ddrygioni rywun arall. Brathiadau salwch, dioddefaint neu farwolaeth, sgil-effeithiau pechod. Brathiadau fel newyn a daeargrynfâu, effaith pechod ar y ddaear.

Cyffes a chais

Wrth ddeall fod y brathiadau'n dilyn eu gwrthryfel, mae'r bobl yn cyffesu eu pechod yn erbyn Duw a Moses, a dyna gychwyn y broses o fendio. Mae hyn yn ein hatgoffa'n glir mai edifeirwch yw dechrau'r broses o iachâd i'r enaid hefyd, trwy inni gyffesu ein gwrthryfel yn erbyn Duw.

Cynllun Duw

Mae gan Dduw gynllun i iacháu'r bobl. Nid symud y nadroedd, ond cynnig iachâd i'r bobl yng nghanol y nadroedd. Mae hynny'n egluro i ni gynllun Duw i'r byd yn yr Efengyl hefyd. Nid cynnig symud pob pechod a phoen, ond cynnig iachawdwriaeth **yng nghanol** byd pechadurus a phoenus. Felly, nid cynllun afreal mo cynllun grasol Duw, ond cynllun i fyd anghenus.

Sarff bres

Roedd raid i Moses wneud sarff bres fel arwydd o addewid Duw i'w gwella. Y seirff oedd wedi eu gwenwyno, a sarff ddiniwed a disglaer fyddai'n gyfrwng gwellhad iddynt. Mae Iesu'n dweud wrthym fod y sarff yn ddarlun ohono'i hun. Ef oedd yr Un diniwed, disglaer a ddaeth i'n byd i fod yn gyfrwng ein gwellhad.

Polyn

Yna roedd raid i Moses godi'r sarff bres ar bolyn uchel i bawb ei weld. Dyma ddarlun o'r groes. Nid yn unig fe'i codwyd yn uchel ar fryn Calfaria, ond mae hanes croes Crist yn sefyll allan yn hanes y byd. Mae'r rhan fwyaf o'r byd yn mesur ei flynyddoedd yn ôl bywyd ein Harglwydd. Mae ei hanes Ef a'i groes, felly, yn sefyll yn glir yng nghanol hanes i bawb ei weld.

Edrych

Deuai gwellhad o wenwyn y seirff trwy edrych ar y sarff bres. Dyma ddarlun gwych o ras Duw, a beth yw ystyr credu yn Iesu Grist. Petai angen cyffwrdd y polyn neu ei ddringo i gyffwrdd â'r sarff, byddai iachâd yn amhosibl. Byddai llawer wedi trengi ar y ffordd! Na, mae'r Arglwydd yn cwrdd â'r bobl yn eu gwendid a'u gwaeledd.

Felly y mae gyda chredu i gael bywyd tragwyddol. Does dim angen cyflawni dyletswyddau crefyddol di-ri'; byddai'n ormod i ni, beth bynnag. Mae angen edrych mewn ffydd ar Grist yn marw drosom ar ei groes. Allwch chi ddychmygu cleifion yr anialwch yn edrych? Byddent yn syllu ar y sarff nes teimlo'r boen a'r gwenwyn yn cilio, a'r nerth a'r iechyd yn llifo i'w cyrff. Dyna yw credu yng Nghrist: edrych mewn ffydd nes teimlo'n pechodau yn cael eu rhoi arno Fe, nes teimlo rhyddhad maddeuant, a braich cariadus y Tad nefol yn ein cofleidio fel ei blentyn.

Bywyd

Yr addewid trwy Moses oedd *bywyd*. Addewid Iesu yw *bywyd tragwyddol*. Mae hyn yn golygu profi bywyd Duw yn llifo i'n heneidiau ni, trwy brawf o'i gariad a'i ras, a phrofi o awydd a syched i'w garu a'i wasanaethu a'i addoli â'n holl fywyd. Mae'n golygu'r addewid hefyd o fod yn debyg i Iesu ryw ddydd, a chael bod gydag Ef.